YR EGLWYS YNG NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

CORFF CYNRYCHIOLWYR YR EGLWYS YNG NGHYMRU
THE REPRESENTATIVE BODY OF THE CHURCH IN WALES

# Datganiadau Arwyddocâd ar gyfer y System Hawlebau Ar-lein

# Nodyn Cyfarwyddyd i Blwyfi

Diben y ddogfen hon yw darparu gwybodaeth i blwyfi ar gyfer cwblhau'r ffurflen *Datganiad Arwyddocâd* wrth gyflwyno cais hawleb llawn ar y System Hawlebau Ar-lein.

## Cyflwyniad

Mae gan yr Eglwys yng Nghymru dros 1,000 o eglwysi rhestredig, hanner ohonynt yn eglwysi gradd I a II*. Mae pob eglwys yn bwysig, ond mae gan y rhai rhestredig ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Mae hyn yn gwneud llawer ohonynt yn rhai o ddiddordeb cenedlaethol ac yn golygu bod angen rheoli eu gofal a'u gwaith cynnal a chadw parhaus yn sensitif i sicrhau eu bod yn parhau fel mannau addoli ac er mwynhad y gymuned ehangach am genedlaethau i ddod.

Mae gwaith cynnal a chadw, trwsio a rheoli'r holl eglwysi a mynwentydd sy'n eiddo i Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru o ddydd i ddydd yn cael ei wneud ar lefel esgobaeth. Mae unrhyw newidiadau i'r eglwysi a'r mynwentydd hyn yn amodol ar ganiatâd ar ffurf *hawleb.* Gelwir y broses o gael un yn *broses hawlebau.* Mae gweithrediad y broses hawlebau yn golygu nad oes rhaid i Gynghorau Plwyf Eglwysig[1] wneud cais i'r Awdurdod Cynllunio Lleol am gydsyniad adeilad rhestredig ar wahân ar gyfer eu heglwysi rhestredig. Y rheswm am hyn yw bod yr Eglwys yng Nghymru wedi'i dosbarthu fel enwad sydd wedi'i esemptio ac wedi dangos bod ei system caniatâd adeiladu fewnol ei hun (h.y. y broses hawlebau) yn gyfwerth â'r system seciwlar. Mae'r "esemptiad eglwysig" yn rhan o ddeddfwriaeth genedlaethol fel y disgrifir yng *Ngorchymyn Esemptiad Eglwysig (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2018.*

Mae angen ystyried unrhyw newid i eglwys yn ofalus. Mae hyn yn golygu deall ei arwyddocâd ac asesu effaith y gwaith arfaethedig arni a'i lleoliad. Dylid cyfiawnhau newidiadau a'u pwyso a'u mesur yn erbyn unrhyw ddifrod posibl i ffabrig hanesyddol yr eglwys a'i lleoliad.

Mae angen cwblhau ffurflen *Datganiad Arwyddocâd* ar gyfer cais hawleb llawn. Mae'r ffurflen yn cynnwys tair adran i helpu ymgeiswyr i asesu arwyddocâd eu heglwys ac effaith y gwaith arfaethedig arni. Bydd faint o wybodaeth y dylid ei chynnwys yn gymesur â'r arwyddocâd i'r eglwys a faint o newid sydd ei angen.

[1] Defnyddir y term "Cyngor Plwyf Eglwysig" o fewn y ddogfen hon i ddisgrifio corff ymddiriedolwyr yr eglwys leol sy'n gyfrifol am reoli'r eglwys, y neuadd a'r fynwent. Gellir adnabod y cyrff hyn hefyd fel Cyngor yr Ardal Weinidogaeth, Cyngor yr Ardal Weinidogaeth Leol, Cyngor Bywoliaeth Reithorol, Cynhadledd Ardal Genhadaeth, neu unrhyw derm arall a ddynodir gan bolisïau'r esgobaeth.

## Cynnwys

Nod yr adrannau canlynol yw eich helpu chi i gwblhau ffurflen *Datganiad Arwyddocâd*, un o'r ffurflenni sy'n rhan o gais hawleb llawn.

Rhan 1, *Deall Arwyddocâd eich Eglwys* – cyflwyno'r cysyniad o arwyddocâd a gwerthoedd treftadaeth.

Rhan 2, *Ymchwilio i Arwyddocâd eich Eglwys* – disgrifio ffynonellau gwybodaeth dibynadwy sydd ar gael y gallwch eu defnyddio yn eich ffurflen *Datganiad Arwyddocâd.*

Rhan 3, *Creu Datganiad Arwyddocâd* - disgrifio'r ffurflen *Datganiad Arwyddocâd* ar-lein a'i thair adran, a thrafod sut i ddefnyddio'r wybodaeth o'ch ymchwil (Rhan 2) a'i chysylltu â'r pedwar gwerth treftadaeth (Rhan 1) wrth gwblhau'r ffurflen.

Mae Atodiad I yn cynnwys enghraifft o ffurflen *Datganiad Arwyddocâd* ar-lein wedi'i chwblhau gan ddefnyddio'r wybodaeth a drafodir yn Rhannau 1 a 2.

Mae Atodiad II yn cynnwys rhestr o ffynonellau gwybodaeth dibynadwy a ffeithiol y gallwch eu defnyddio i greu *Datganiad Arwyddocâd.*

# 1. Deall Arwyddocâd eich Eglwys

Mae eglwysi'n rhan bwysig o'n treftadaeth a rennir ac mae ganddynt le arbennig yn ein trefi a'n cefn gwlad. Mae llawer wedi bodoli ers yr oesoedd canol a rhain yw'r adeiladau hynaf sy'n dal i gael eu defnyddio mewn cymuned. Mae'r rhan fwyaf wedi'u haddasu rywbryd yn ystod eu hoes a gellir gweld tystiolaeth o hyn drwy eu ffurfiau pensaernïol, eu gosodiadau a'u ffitiadau a'u haddurniadau mewnol unigryw. Mae gan rai gysylltiadau hanesyddol o bwys lleol a chenedlaethol tra bod eraill wedi'u hadeiladu gan benseiri enwog neu'n dilyn arddull artistig neu bensaernïol arbennig. Gall rhai fod yn rhan o grŵp o adeiladau tebyg neu mewn tirwedd sy'n bwysig yn hanesyddol. Mae'r holl bethau hyn yn cyfrannu at arwyddocâd eglwys, a bydd llunio *Datganiad Arwyddocâd,* sy'n tynnu sylw atynt, yn eich helpu chi, a'r bobl sy'n asesu'ch cais am hawleb, i ddeall beth sy'n arbennig am eich eglwys chi.

## Gwerthoedd Treftadaeth[2]

Mae Cadw (gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru) yn disgrifio "asedau treftadaeth" (eglwysi yn ein hachos ni) fel asedau sydd â phedwar gwerth treftadaeth: tystiolaethol, hanesyddol, esthetig a chymunedol, ac y dylid ystyried pob un o'r rhain wrth greu *Datganiad Arwyddocâd.*

### Tystiolaethol

Mae hyn yn cyfeirio at y dystiolaeth ffisegol o'ch eglwys sydd wedi goroesi, fel sut a phryd y cafodd ei hadeiladu, pa ddeunyddiau a ddefnyddiwyd a sut mae hyn wedi newid dros amser. Mae unrhyw elefennau cudd neu gloddedig yn cyfrannu at ei gwerth tystiolaethol hefyd.

### Hanesyddol

Mae hyn yn ymwneud ag unrhyw gysylltiadau hanesyddol a allai fod gan eich eglwys â phobl neu ddigwyddiadau penodol. Efallai ei bod wedi'i dylunio gan bensaer enwog neu ei bod yn cynnwys heneb neu fedd yn coffáu digwyddiad hanesyddol, neu wedi'i chysegru i ffigwr hanesyddol. Efallai ei bod wedi'i hadeiladu gan deulu lleol amlwg a fu'n rhan bwysig o hanes Cymru neu Brydain, neu yn ystod y chwyldro diwydiannol, pan gynyddodd poblogaeth llawer o drefi a dinasoedd yn sylweddol.

### Esthetig

Cafodd llawer o eglwysi eu cynllunio a'u hadeiladu mewn arddull bensaernïol arbennig neu maen nhw'n dangos crefftwaith da iawn, ac mae'r gwerth treftadaeth hwn yn ceisio cyfleu hyn. Gall gynnwys lleoliad eglwys hefyd h.y. ei pherthynas â'i hamgylchedd uniongyrchol ac ehangach. Sut mae'n cyfrannu at ei thirwedd neu drefwedd a sut mae'r pethau hyn gyda'i gilydd yn cyfrannu at gymeriad yr ardal. Gallai fod yn rhan o grŵp cydlynol o adeiladau tebyg (e.e. eglwys, ficerdy ac ysgol) a adeiladwyd yr un pryd, neu a ddyluniwyd gan yr un pensaer.

### Cymunedol

Mae'r gwerth hwn yn ceisio cyfleu unrhyw ystyr arbennig a allai fod gan eich eglwys i'r gymuned. Er enghraifft, pa ran y mae (neu a oedd) yn ei chwarae ym mywyd ysbrydol a diwylliannol lleol y gymuned?

---

[2] Egwyddorion Cadwraeth (ar gyfer rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru yn gynaliadwy), deall gwerthoedd treftadaeth ac asesu arwyddocâd, t16.

## 2. Ymchwilio i Arwyddocâd eich Eglwys

Wrth ymchwilio i arwyddocâd eich eglwys mae'n bwysig defnyddio ffynonellau gwybodaeth ffeithiol a dibynadwy. Un o'r adnoddau ar-lein gorau yw gwefan Cymru Hanesyddol lle gallwch weld Cofnodion Adeiladau Rhestredig, Cofnodion Amgylcheddau Hanesyddol, Cofnodion Henebion Cenedlaethol, Cofnodion Henebion Cofrestredig a chasgliad Archaeoleg yr Amgueddfa Genedlaethol. Yma, gallwch chwilio yn ôl enw lle (pentref, tref, dinas ac ati), cyfeirnod grid yr Arolwg Ordnans neu god post. Gallwch fynd i'r wefan drwy glicio yma.

Mae'r canlynol yn disgrifio adnoddau gwefan Cymru Hanesyddol yn fyr a'r hyn maen nhw'n ddefnyddiol ar eu cyfer wrth greu Datganiad Arwyddocâd. Mae rhestr bellach o adnoddau yn Atodiad II hefyd.

### Adroddiadau Adeiladau Rhestredig (LBRs)

Mae'r adroddiadau hyn mewn fformat safonol ac fel arfer yn cynnwys hanes cryno'r adeilad, disgrifiad o'r tu allan, y tu mewn a'r rheswm am restru (dynodiad). Dylai craidd y gwerth treftadaeth tystiolaethol ddod o'r ddogfen hon, yn ogystal â gwybodaeth am y gwerthoedd hanesyddol ac esthetig. Mae'r adran "rheswm am restru" yn ddefnyddiol iawn ar gyfer dangos beth sy'n arbennig neu'n arwyddocaol am adeilad a dylech dalu sylw i hyn yn eich Datganiad Arwyddocâd, yn enwedig os bydd y gwaith arfaethedig yn effeithio arno.

Mae amrywiaeth eang o strwythurau wedi'u rhestru, nid eglwysi ac adeiladau eraill yn unig. Gall cofebau rhyfel, pyrth mynwentydd, waliau mynwentydd ac ati fod yn rhestredig ar sail eu haeddiant eu hunain. Mae gwybod hyn yn ddefnyddiol wrth gynllunio unrhyw waith allanol i'ch eglwys, gan y bydd disgwyl i chi ddisgrifio sut y bydd y lleoliad (gwerth treftadaeth esthetig) unrhyw strwythurau rhestredig o fewn ei gwrtil yn cael eu heffeithio, yn ogystal â'r adeilad ei hun.

### Cofnodion Amgylcheddau Hanesyddol (HERs)

Mae Cofnodion Amgylcheddau Hanesyddol yn cynnwys gwybodaeth am dirweddau hanesyddol (trefol a gwledig), adeiladau a safleoedd archaeolegol, ac yn cael eu cynnal gan y pedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol yng Nghymru. Gallant hefyd gynnwys adroddiadau o arolygon (fel *Arolwg Eglwysi Hanesyddol Cymru*), cloddiadau ac ymchwiliadau archaeolegol, ac astudiaethau hanesyddol, neu o leiaf gyfeiriad at y rhain neu ddolen iddynt fel y gallwch wneud mwy o ymchwil eich hun.

Mae'n dal i fod yn werth chwilio drwy'r Cofnodion Amgylcheddau Hanesyddol hyd yn oed os nad yw'ch eglwys yn rhestredig, gan fod eglwysi rhestredig a heb eu rhestru yn gallu cael Cofnod Amgylchedd Hanesyddol. Maen nhw'n ddefnyddiol iawn ar gyfer gwybodaeth archaeolegol a gallant ddweud wrthych a oes gennych chi unrhyw "archaeoleg gudd" yn yr eglwys neu'r fynwent. Gallant gynnwys gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer gwerthoedd treftadaeth tystiolaethol, hanesyddol ac esthetig.

### Cofnodion Henebion Cenedlaethol (NMRs)

Mae'r cofnodion hyn yn cael eu cadw gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Fodd bynnag, mae'r Gymdeithas yn cofnodi mwy na henebion. Maen nhw'n cofnodi eglwysi ac adeiladau a strwythurau eraill hefyd, felly mae'n werth chwilio drwy eu cofnodion bob amser. Mae llawer o'u cofnodion yn cynnwys ffotograffau a dolenni i safleoedd a henebion cysylltiedig, fel pyrth mynwentydd a chroesau mynwentydd. Maen nhw'n ddefnyddiol ar gyfer gwerthoedd treftadaeth tystiolaethol a hanesyddol.

### Henebion Cofrestredig (SAMs)

Ni all eglwysi fod yn henebion cofrestredig, er y gallai fod rhai yn y fynwent, fel croes bregethu neu garreg Gristnogol gynnar. Yn wahanol i eglwysi rhestredig a strwythurau o fewn eu cwrtilau nid yw henebion cofrestredig yn dod o fewn esemptiad eglwysig. Maen nhw'n cael llawer mwy o warchodaeth nag adeiladau rhestredig a bydd angen cydsyniad heneb gofrestredig gan Cadw arnynt cyn gwneud unrhyw waith. Bydd angen i chi fod yn ofalus gydag unrhyw waith allanol i'ch eglwys, mynwent ac unrhyw strwythurau o fewn ei chwrtil, a allai effeithio ar leoliad (gwerth esthetig) Heneb Gofrestredig. Os mai dyna'r achos, gwnewch yn siŵr bod hyn yn cael ei gofnodi yn eich *Datganiad Arwyddocâd.*

### Casgliad Archaeoleg Amgueddfa Cymru

Cofnodion o ganfyddiadau archaeolegol yw'r rhain. Nid oes unrhyw wybodaeth ar gael drwy wefan Cymru Hanesyddol yn uniongyrchol, er bod lleoliad a rhif y canfyddiad yn cael ei gofnodi. Ychydig o ddefnydd sydd iddynt o ran disgrifio arwyddocâd, ond gallant fod yn arwydd o bresenoldeb safle hanesyddol, sydd yn ei dro'n golygu y bydd rhaid i chi ystyried hyn o bosibl pe gallai eich gwaith arfaethedig darfu ar unrhyw archaeoleg gudd. Fodd bynnag, os yw'r safle ei hun yn bwysig, bydd wedi'i gofnodi fel Cofnod Amgylchedd Hanesyddol, felly gwiriwch hyn bob amser hefyd.

### Ffynonellau gwybodaeth eraill

Mae arweinlyfrau Pevsner *'Buildings of Wales'* yn ddefnyddiol iawn ar gyfer adeiladau rhestredig a heb eu rhestru gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth am bensaernïaeth, hanes, deunyddiau adeiladu a chynnwys eglwys yn aml. Gallant fod yn ffynonellau gwybodaeth da ar gyfer pob gwerth treftadaeth (tystiolaethol, hanesyddol, esthetig a chymunedol). Yn ogystal, byddant yn cynnwys tipyn o wybodaeth gefndir am eich pentref/tref/dinas yn aml a allai fod yn ddefnyddiol i'w chynnwys mewn *Datganiad Arwyddocâd.* Maen nhw ar gael yn eang mewn siopau llyfrau a llyfrgelloedd neu gellir eu harchebu gan werthwr llyfrau ar-lein (e.e. Amazon).

Dylai fod gan eich eglwys restr eiddo o'i chynnwys. Lluniwyd y rhain rai blynyddoedd yn ôl (a'r llyfr log a'r tirlyfr) ac maen nhw'n cael eu cadw ym mhob plwyf. Yn aml maen nhw'n cynnwys hanes pensaernïol yr adeilad yn ogystal â rhestr eiddo fanwl o'i chynnwys a gallant fod yn ddefnyddiol iawn ar gyfer tynnu sylw at nodweddion pwysicaf eglwys. Gallant fod yn ffynonellau gwybodaeth da am yr holl werthoedd treftadaeth (tystiolaethol, hanesyddol, esthetig a chymunedol).

Yn aml mae adroddiadau Arolygiad Pum Mlynedd yn cynnwys disgrifiad o hanes pensaernïol eglwys a'i deunyddiau adeiladu a'i dull adeiladu (yn ogystal â nodi meysydd sydd angen sylw). Gall hyn eu gwneud yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol wrth asesu gwerthoedd treftadaeth tystiolaethol. Dylent gynnwys nodyn o unrhyw ddynodiadau sy'n berthnasol hefyd (e.e. adeilad rhestredig, ardal gadwraeth ac ati).

Cronfa ddata o holl eglwysi'r Eglwys yng Nghymru yw Church Heritage Cymru. Mae yna brosiect parhaus i'w llenwi â gwybodaeth ddefnyddiol i helpu plwyfi wrth baratoi am gais hawleb. Er y gall cynnwys pob cofnod amrywio, mae'n werth gwirio i weld pa ddata mae'n ei chynnwys am eich eglwys chi bob amser.

## 3. Creu Datganiad Arwyddocâd

Mae angen Datganiad Arwyddocâd ar bob cais hawleb llawn ac mae yna ddau opsiwn ar gyfer paratoi datganiad o'r fath. Bydd yr opsiwn a ddewiswch yn dibynnu ar eich gwaith arfaethedig

ac arwyddocâd eich eglwys. Yr opsiwn symlaf, a ddisgrifir yn y ddogfen hon, yw cwblhau'r ffurflen Datganiad Arwyddocâd ar y System Hawlebau Ar-lein. Mae'n cynnwys tair adran sy'n gofyn i chi ddisgrifio'ch eglwys a'i hanes, gan amlygu unrhyw nodweddion pensaernïol, artistig neu archaeolegol, ac asesiad o effaith y gwaith arfaethedig. Dyma'r opsiwn a argymhellir ar gyfer y gwaith mwyaf sylfaenol.

O ran gwaith mawr mwy cymhleth, yr opsiwn a ffefrir yw lanlwytho dogfen Datganiad Arwyddocâd ar wahân i'r System Hawlebau Ar-lein. Mae hyn yn eich galluogi i gynnwys mwy o fanylion na'r hyn sydd ei angen ar gyfer y ffurflen ar-lein a byddai'n cael ei baratoi gan weithiwr cadwraeth proffesiynol fel arfer fel rhan o'r dogfennau ategol ar gyfer y prosiect (e.e. ar gyfer ad-drefnu'r eglwys yn sylweddol). Bydd rhagor o gyfarwyddyd ar sut i baratoi'r math hwn o Ddatganiad Arwyddocâd ar gael yn y dyfodol.

Bydd y wybodaeth a gofnodwch ar y ffurflen ar-lein yn parhau ar y System Hawlebau Ar-lein, felly ni fydd yn rhaid i chi ei hailysgrifennu y tro nesaf y byddwch yn gwneud cais am hawleb. Fodd bynnag, bydd angen i chi wneud rhai mân newidiadau i gefnogi'ch gwaith newydd. Disgrifir isod y tair adran o'r ffurflen sydd angen i chi eu cwblhau:

## Adran 1. Hanes a disgrifiad byr o adeilad(au), cynnwys, mynwent a lleoliad yr eglwys

Os yw'ch eglwys wedi'i rhestru dylech allu cael y rhan fwyaf o'r wybodaeth sydd ei hangen o'r adroddiad adeilad rhestredig (LBR). Mae hwn yn cynnwys adrannau ar hanes, y tu allan i'r eglwys (disgrifiad o adeilad yr eglwys) a'r cynnwys (y tu mewn), gan roi sylw i werthoedd treftadaeth *tystiolaethol* a *hanesyddol*. Os cafodd yr eglwys ei hadeiladu mewn arddull bensaernïol arbennig (e.e. Gothig, Eidalaidd ac ati) efallai y bydd hyn yn yr adroddiad a dylech ei gynnwys yn eich disgrifiad h.y. gwerth treftadaeth *esthetig*.

Gall yr adroddiad gynnwys disgrifiad byr o'r fynwent, yn enwedig os yw'r waliau neu unrhyw strwythurau ynddi wedi'u rhestru. Os na, bydd angen i chi roi disgrifiad ohoni eich hun, yn cynnwys unrhyw strwythurau rhestredig yn y fynwent neu SAMs.

Mae disgrifiad byr iawn o leoliad yr eglwys yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Adeilad Rhestredig weithiau hefyd (yn yr adran lleoliad os oes un) a gallwch ei ddefnyddio fel man cychwyn i roi disgrifiad llawnach o'ch un chi. Dim ond disgrifiad byr o'r lleoliad fydd ei angen os yw eich gwaith arfaethedig y tu mewn i'r eglwys. Fodd bynnag, os bydd eich gwaith yn effeithio ar olwg allanol yr eglwys bydd angen i chi feddwl sut mae'n cysylltu â'i hamgylchedd uniongyrchol ac ehangach h.y. ei gwerth treftadaeth *esthetig*. Dylech ystyried y canlynol felly a'u cynnwys ar y ffurflen:

- A yw'r eglwys mewn lleoliad gwledig neu drefol? Rhowch ddisgrifiad byr o'r ardal gyfagos.
- Beth yw maint yr eglwys mewn perthynas ag adeiladau neu nodweddion tirwedd cyfagos (paciau, coed, gwrychoedd ac ati)? A yw'n llawer amlycach na'r rhain neu'n fychan o gymharu â nhw? Rhowch ddisgrifiad byr o'r berthynas hon.
- A yw adeiladau cyfagos o oedran, arddull ac adeiladwaith tebyg neu a ydynt yn fwy cyfoes? Rhowch ddisgrifiad byr ohonynt.

- A yw'r eglwys yn rhan o grŵp cydlynol o adeiladau tebyg (e.e. eglwys, ficerdy ac ysgol) a adeiladwyd yr un pryd, neu a gynlluniwyd gan yr un pensaer? Os ydyw, rhowch ddisgrifiad ohonynt.

Yn olaf, os oes gan eich eglwys unrhyw berthynas arbennig â'r gymuned leol (yn y gorffennol neu'r presennol) disgrifiwch hynny yma. Bydd hyn yn rhoi sylw i werth treftadaeth *cymunedol.*

Os nad yw'ch eglwys wedi'i rhestru dylai fod ganddi gofnod amgylchedd hanesyddol (HER) a chofnod heneb genedlaethol (NMR) o bosibl. Bydd y rhain yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth y gallwch ei defnyddio (hyd yn oed os yw'n gyfyngedig mae yna gyfeiriadau at ffynonellau eraill). Hefyd, edrychwch yn arweinlyfrau Pevsner *Buildings of Wales' Pesvner*, stocrestr eich eglwys ac adroddiadau arolygiadau pum mlynedd.

Yn wahanol i gynnwys adroddiad adeilad rhestredig ni fydd hanes a disgrifiad adeilad eich eglwys, ei chynnwys, y fynwent a'r lleoliad wedi'i threfnu cystal mewn ffynonellau eraill. Bydd angen i chi gymryd y wybodaeth briodol i'w chynnwys yn Adran 1 felly, gan gofio y pedwar gwerth treftadaeth: tystiolaethol, hanesyddol, esthetig a chymunedol, y dylech roi sylw iddynt os oes modd. Os ydych yn cael cryn drafferth gyda hyn, holwch Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth a allai helpu o bosibl.

**Adran 2: Disgrifiwch arwyddocâd yr eglwys (a'i chynnwys a'r fynwent) o ran:**

**i)** **Ei diddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig**
ii) **Unrhyw nodweddion arwyddocaol o ddiddordeb artistig neu bensaernïol**

Ar ôl cwblhau Adran 1 dylech fod â dealltwriaeth dda o hanes, pensaernïaeth, cynnwys a lleoliad eich eglwys. Y cam nesaf yw asesu arwyddocâd eich eglwys yn nhermau rhan (i) a (ii) uchod. Mae adran "rheswm dros restru/dynodi" yr adroddiad adeilad rhestredig yn ddefnyddiol iawn ar gyfer amlygu beth sy'n arbennig neu'n arwyddocaol am adeilad, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys hyn yn y ffurflen.

Rhowch sylw arbennig i'r elfennau a fydd yn cael eu heffeithio gan eich gwaith arfaethedig *yn enwedig* os ydynt wedi'u cynnwys yn y disgrifiad rhestr (nid yn adran "rheswm dros restru" yr adroddiad adeilad rhestredig yn unig, sydd ond yn frawddeg fel arfer).

Cofiwch y dylai faint o wybodaeth rydych yn ei chynnwys yn yr adran hon fod yn gymesur ag arwyddocâd yr eglwys a maint y newid arfaethedig.

**Adran 3: Asesiad o effaith y cynigion ar yr arwyddocâd a ddiffinnir yn Adran 2**

Yn Adran 2 byddwch wedi asesu arwyddocâd cyffredinol eich eglwys a nodi unrhyw nodweddion neu elfennau arbennig. Y cam nesaf yw asesu effaith eich gwaith arfaethedig ar y rhain. Os bydd yn cael effaith niweidiol dylid chwilio am ateb arall. Fodd bynnag, os na ellir osgoi hyn bydd angen i chi gael strategaeth liniaru i leihau'r difrod. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod wedi ystyried yr holl opsiynau eraill yn llawn bob amser a'ch bod yn gallu cyfiawnhau eich dull gweithredu, yn enwedig os yw'r manteision o gyflawni'r gwaith yn fwy na'r difrod.

Dylai'r cyfiawnhad dros eich gwaith arfaethedig gael ei ddisgrifio yn y ffurflen *Datganiad o Anghenion,* sy'n rhan o gais hawleb llawn hefyd.

Yn ogystal â chwblhau tair adran y ffurflen Datganiad Arwyddocâd ar-lein, gallwch ei defnyddio i lanlwytho cynllun, a llun allanol a mewnol o'ch eglwys hefyd. Fodd bynnag, mae'n well darparu cymaint o luniau ag y gallwch o'r rhannau o'r eglwys neu'r fynwent a fydd yn cael eu heffeithio gan y gwaith arfaethedig. Dylid eu lanlwytho ar y tab *Dogfennau a Lluniau Ategol* ar sgrin *Manylion* y System Hawlebau Ar-lein.

Gweler Atodiad I am enghraifft o Ddatganiad Arwyddocâd yn defnyddio'r ffurflen ar-lein.

**Noder:** Os oes angen unrhyw gymorth neu gyngor arnoch i gwblhau'r ffurflen ar-lein dylech holi Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth.

## ATODIAD I: Datganiad Arwyddocâd Ar-lein Enghreifftiol

Mae'r canlynol yn enghraifft o ffurflen Datganiad Arwyddocâd wedi'i chwblhau (a ddefnyddiwyd mewn ymarfer hyfforddi) ar gyfer cais hawleb i ddisodli'r unedau cegin a theils llawr yn y gegin/ystafell gyfarfod ym mhen gorllewinol Eglwys y Santes Fair, Dolgellau.

**Adran 1: Hanes a disgrifiad byr o adeilad(au), cynnwys, mynwent a lleoliad yr eglwys**

Mae Eglwys y Santes Fair, ym Mywoliaeth Bro Cymer, wedi'i lleoli yn ne Esgobaeth Bangor. Mae'n adeilad rhestredig gradd II wedi'i amgylchynu gan ei fynwent ac wedi'i leoli yn ardal gadwraeth ganolog tref Dolgellau, ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Mae'r fynwent yn cynnwys amrywiaeth o feddau a henebion, gyda deial haul rhestredig gradd II gyferbyn â mynedfa ddeheuol yr eglwys a gatiau a rheiliau rhestredig gradd II yn y fynwent.

Mae'r eglwys yn dyddio o 1716, er bod yna dystiolaeth ddogfennol o eglwys ganoloesol gynharach ar yr un safle ym 1254, a phresenoldeb allor siantri wedi'i chofnodi ym 1558. Yn ôl pob sôn fe adeiladwyd yr eglwys "newydd" o amgylch yr hen eglwys fel y gallai gwasanaethau barhau, er nad oes unrhyw dystiolaeth ffisegol o'r strwythur cynharach yn weddill, heblaw am fwliwn yn wal y fynwent a delw o Arglwydd lleol (Meurig ab Ynyr Fychan o Nannau) o'r bedwaredd ganrif ar ddeg wedi'i lleoli yng nghilfach ffenestr y gogledd ddwyrain.

Yn bensaernïol, mae'r eglwys yn Sioraidd ei harddull (ac felly'n brin yng Nghymru), gyda ffenestri bwaog tal yn yr ystlysau gogleddol a deheuol, cangell gromfannol yn y pen dwyreiniol a thŵr yn y pen gorllewinol. Yn anarferol, mae corff yr eglwys a'r ystlysau wedi'u rhannu gan arcêd o golofnau pren. Mae'r eglwys wedi'i hadeiladu o gerrig llechi brown llwyd o chwarel leol wedi'u torri'n flociau rheolaidd (a ddefnyddir yn fwy cyffredin ar gapan drws adeiladau eraill yn y dref), sy'n gorgyffwrdd yn y corneli i ffurfio conglfeini. Mae conglfeini'r ffenestri'n debyg o ran arddull. Mae'r tŵr crenelog wedi'i greu o gerrig llanw – efallai'n ganoloesol o ran tarddiad ac wedi'u hailfodelu tua dechrau'r 17eg ganrif. Cafodd y festri (ger y tŵr) ei hychwanegu tua dechrau'r 19eg ganrif.

Y tu mewn, mae gan Eglwys y Santes Fair nenfwd pren baril bwaog "gwastadedig" llydan gyda nifer o gofebau o'r 18fed a'r 19eg ganrif ar y waliau. Mae eiliau a chorff yr eglwys wedi cadw'r rhan fwyaf o'u corau pren tywyll o ddiwedd y 19eg ganrif. Mae'r ffenestri gwydr lliw hardd yn nodwedd arbennig o'r eglwys gyda thair gan y cwmni enwog Clayton & Bell, yn dyddio o'r 1860au. Cafodd yr eglwys ei hadfer ym 1864 (mae arysgrif Cymraeg ar lechen uwchben y drws deheuol i nodi hyn) ac fe newidiwyd ffenestri'r gangell a gosodwyd ffenestr ganolog newydd ym 1901 gan Bensaer yr Adfywiad Gothig, G F Bodley. Cwblhawyd y gwaith ailfodelu sylweddol diwethaf yn yr eglwys ym 1992 pan osodwyd ystafell gyfarfod a chegin amlbwrpas ar y llawr cyntaf yng nghefn yr eglwys gydag ystafell wisgo oddi tani. Mae'r ystafell gyfarfod fwaog gyda ffenestri crymion, yn adlewyrchu'r gangell gromfannol ac yn edrych dros gorff yr eglwys. Gellir ei chyrraedd trwy ddringo'r grisiau llydan (gyda lifft cadair) o gyntedd y de gyda thoiled anabl gyferbyn.

Mae siâp mynwent y Santes Fair yn awgrymu ei bod yn gromlinog ar un adeg, ond mae'n fwy afreolaidd erbyn hyn, efallai wrth i adeiladau cyfagos orgyffwrdd â hi dros y blynyddoedd. Mae mynedfeydd i'r fynwent ar Y Lawnt a Ffordd y Marian, y ddwy â gatiau haearn gyr a chymysgedd o reiliau a waliau cerrig ar hyd ei therfyn allanol. Mae'r fynwent yn cynnwys amrywiaeth o gerrig beddau, beddau bocs a chofebau.

**Adran 2: Arwyddocâd yr eglwys (yn cynnwys ei chynnwys a'r fynwent) o ran:**

**i) Ei diddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig**

**ii) Unrhyw nodweddion arwyddocaol o ddiddordeb artistig neu archaeolegol**

(i) Mae Eglwys Sioraidd y Santes y Fair wedi'i hadeiladu o gerrig o chwarel leol. Mae corff yr eglwys a'r eiliau wedi'u rhannu gan arcêd o golofnau pren. Mae'r gangell yn gromfannol a'r nenfwd pren baril bwaog "gwastadedig" llydan yn cyfateb i bren tywyll y corau o ddiwedd y 19eg ganrif. Mae'n cynnwys llawer o ffenestri gwydr lliw a chofebau ar y waliau. Mae'r ystafell gyfarfod fwaog gyda ffenestri crymion, yn adlewyrchu'r gangell gromfannol ac yn edrych dros gorff yr eglwys.

(ii) Credir bod yr eglwys bresennol wedi disodli un ganoloesol gynharach ar yr un safle, gyda'r tŵr yn cynnwys rhywfaint o ffabrig yr adeilad cynharach hwn o bosibl. Mae'r eglwys yn enwog am ei ffenestri gwydr lliw hardd gyda thair ohonynt gan y cwmni enwog Clayton & Bell, yn dyddio o'r 1860au. Cafodd yr eglwys ei hadfer ym 1864 ac fe newidiwyd ffenestri'r gangell a gosodwyd ffenestr ganolog newydd ym 1901 gan Bensaer yr Adfywiad Gothig, G F Bodley.

**Adran 3: Asesiad o effaith y cynigion ar yr arwyddocâd a ddiffiniwyd yn Adran 2**

Ni fydd y gwaith arfaethedig yn effeithio ar du allan yr eglwys, na wyneb allanol yr ystafell gyfarfod amlbwrpas a'r gegin o du mewn yr eglwys. Mae'r gwaith wedi'i gyfyngu i du mewn yr ystafell gyfarfod/cegin yn unig. Y cynnig yw cael gwared â'r unedau cegin presennol yn llwyr. Cafodd y rhain eu gosod pan grëwyd yr ystafell gyfarfod/cegin ym 1992. Nid ydynt yn ateb y diben bellach a bydd unedau modern yn cael eu gosod yn eu lle. Bydd teils y llawr yn cael eu newid yr un pryd. Mae dogfennau ategol ar gyfer yr unedau a'r llawr newydd, a ffotograffau'n dangos yr ardaloedd sy'n cael eu heffeithio gan y gwaith arfaethedig, wedi'u lanlwytho i'r System Hawlebau Ar-lein.

**Ffynonellau:**


Dolgellau: Deall Nodweddion Trefol, cyhoeddwyd gan Cadw.

Cofnodion Adeiladau Rhestredig Cadw ar gyfer (a) Eglwys y Santes Fair Dolgellau (Cyf: 5064), (b) Deial haul ym Mynwent Eglwys y Santes Fair (Cyf: 5065) a Gatiau a Rheiliau Mynwent Eglwys y Santes Fair (Cyf: 5063).

The Buildings of Wales: Gwynedd, cyhoeddwyd gan Yale University Press.

Cofnod cronfa ddata ar-lein (Coflein) Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru ar gyfer Eglwys y Santes Fair Dolgellau.

# ATODIAD II: ADNODDAU

Mae yna lawer o wybodaeth ar gael yn hawdd i'ch helpu chi i ymchwilio a pharatoi eich *Datganiad Arwyddocâd.* Mae'r canlynol yn rhestru'r ffynonellau mwyaf hygyrch a dibynadwy.

**Gwefan Cymru Hanesyddol**
Fel y soniwyd yn gynharach, un o'r adnoddau gorau ar-lein yw gwefan Cymru Hanesyddol lle gallwch weld Cofnodion Adeiladau Rhestredig, Cofnodion Amgylcheddau Hanesyddol, Cofnodion Henebion Cenedlaethol, Cofnodion Henebion Cofrestredig a chasgliad Archaeoleg yr Amgueddfa Genedlaethol. Cliciwch yma i fynd i'r wefan.

**Llyfrau 'Buildings of Wales' Pevsner**
Mae yna saith cyfrol ranbarthol o lyfrau 'Buildings of Wales' Pevsner ar gael erbyn hyn. Maen nhw'n cwmpasu Cymru gyfan ac wedi'u cyhoeddi gan Yale University Press. Bydd y rhan fwyaf o lyfrgelloedd lleol yn cadw copi o'r gyfrol sy'n berthnasol i'w rhanbarth nhw. Gellir eu prynu'n uniongyrchol o siopau llyfrau lleol neu ar-lein hefyd (e.e. gan Amazon).

**Arolwg Eglwysi Hanesyddol Cymru**
Cynhaliwyd arolwg o'r holl eglwysi cyn y 19eg ganrif yng Nghymru gan y pedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol yng Nghymru ar ddiwedd y 1990au, gyda phob un yn cwmpasu ei rhanbarth ei hun. Mae argaeledd ar-lein data'r arolwg yn amrywio o un ymddiriedolaeth i'r llall, er y bydd pob un yn darparu gwybodaeth i chi os byddwch yn cysylltu â nhw. Cliciwch ar y dolenni isod i fynd i wefannau'r Ymddiriedolaethau:

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent

Yn ogystal, mae gan nifer astudiaethau *Cymeriad Tirwedd Hanesyddol* a *Threfi, Cymunedau ac Aneddiadau Hanesyddol* a all fod yn ddefnyddiol i'ch helpu chi i ddeall arwyddocâd archaeolegol a hanesyddol ehangach eich ardal.

**Gwefan Archwilio**
Gellir gweld yr holl Gofnodion Amgylcheddau Hanesyddol drwy wefan Cymru Hanesyddol, ond mae modd eu gweld ar wefan Archwilio hefyd. Mantais defnyddio Archwilio'n uniongyrchol yw y gallwch chi chwilio yn ôl ardal ddaearyddol, awdurdod lleol, cyfnod hanesyddol a defnyddio testun rhydd. Gallwch weld hefyd a yw eich eglwys wedi'i lleoli mewn ardal gadwraeth, parc a gardd dynodedig, safle treftadaeth y byd a thirwedd hanesyddol drwy leoli ei Gofnod Amgylchedd Hanesyddol ar fap. Mae hyn yn ddefnyddiol os ydych chi'n cynllunio unrhyw waith allanol yn yr ardaloedd hanesyddol hyn. Cliciwch yma i fynd i'r wefan.

**Swyddfeydd Cofnodion Lleol**
Mae gwefan Archifau Cymru'n cynnwys gwybodaeth gysylltu a lleoliad, oriau agor a'r mathau o gofnodion a gedwir, ar gyfer pob swyddfa cofnodion awdurdod lleol yng Nghymru. Cliciwch yma i fynd i'r wefan.

## Astudiaethau Nodweddion Trefi Hanesyddol Cymru

Mae Cadw a rhai awdurdodau lleol wedi cynhyrchu cyfres o astudiaethau nodweddion ar gyfer trefi ledled Cymru. Bydd yr astudiaethau hyn yn rhoi trosolwg cyffredinol da i chi o'ch ardal cyn i chi ddechrau "canolbwyntio" ar gyfraniad eich eglwys chi i natur unigryw'r ardal. Os nad ydych chi'n siŵr beth sydd ar gael yn eich ardal, chwiliwch ar y we gan fod y rhan fwyaf o astudiaethau ar gael i'w lawrlwytho neu i'w gweld ar-lein.

Mae gan awdurdodau lleol nifer o enwau gwahanol ar eu hastudiaethau nodweddion, felly efallai y bydd rhaid i chi fynd ati i chwilio'n greadigol cyn dod o hyd i unrhyw beth perthnasol i'ch ardal! Chwiliwch drwy ddefnyddio geiriau fel *astudiaeth o dirwedd drefol, astudiaeth o nodweddion trefol, astudiaeth o nodweddion hanesyddol (urban townscape study, urban characterisation study, historic characterisation study)* ac ati ar gyfer eich tref chi.

Peidiwch â digalonni wrth weld faint o wybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn astudiaeth nodweddion fel arfer. Dim ond ychydig o'r wybodaeth fydd yn berthnasol i'ch anghenion chi. Mae'r astudiaethau'n rhannu'r dref, y ddinas neu'r ardal maen nhw'n ei chwmpasu'n rhannau llai fel arfer (ardaloedd cadwraeth yn aml), felly chwiliwch am y wybodaeth sy'n benodol i ardal neu leoliad eich eglwys. Os na allwch ddod o hyd i astudiaeth ar gyfer eich ardal cysylltwch â'ch awdurdod lleol, ymddiriedolaeth archaeolegol neu Cadw'n uniongyrchol.

Os nad oes astudiaeth nodweddion ar gael ar gyfer eich ardal bydd angen i chi wneud rhywfaint o "waith maes" eich hun. Nid yw hon yn dasg anodd a bydd yn ymarfer da hyd yn oed pan fydd yna astudiaeth addas ar gael. Bydd yn eich helpu chi i edrych yn feirniadol ar leoliad eich eglwys a sut mae'n perthyn i nodweddion eraill yn yr ardal. Cerddwch o gwmpas y tu allan i'r eglwys a'r ardal gyfagos gyda llyfr nodiadau a chamera digidol, a chofnodwch yr hyn rydych yn ei weld. Gwnewch hyn fel grŵp os oes modd yna trafodwch eich canfyddiadau ar y cyd.

## Canllawiau Dylunio a Chanllawiau Cynllunio Atodol

Yn ogystal ag astudiaethau nodweddion mae awdurdodau lleol (a chynghorau dosbarth) yn cyhoeddi canllawiau dylunio'n aml i helpu pobl i ddeall beth sy'n arbennig ac unigryw am eu hardal neu gymuned leol. Dylai unrhyw un sy'n cyflwyno cais cynllunio, boed ar gyfer cydsyniad adeilad rhestredig, cydsyniad ardal cadwraeth neu ganiatâd cynllunio, ddarllen y canllaw i sicrhau bod cynllun eu cynnig yn cyd-fynd â natur unigryw a nodweddion yr ardal. Gall y canllawiau hyn eich helpu chi i ddeall beth sy'n arbennig am eich ardal arbennig chi wrth baratoi Datganiad Arwyddocâd.

Gall canllawiau dylunio fod yn ddogfennau annibynnol neu'n rhan o rai mwy fel *Cynlluniau Datblygu Unedol* neu *Gynlluniau Datblygu Lleol* a gyhoeddir gan awdurdodau lleol. Weithiau maen nhw wedi'u dynodi fel *Canllawiau Cynllunio Atodol.* Gellir lawrlwytho'r rhan fwyaf o'r dogfennau hyn o adran gynllunio neu reoli adeiladu gwefan eich awdurdod lleol.

Tina Andrew
Rheolwr Cymorth a Chadwraeth Eglwysi
Yr Adran Eiddo
Yr Eglwys yng Nghymru
6 Tachwedd 2019